# Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog Community Council

**Cofnodion Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymunedol Y Gaerwen, ar Nos IAU, 19eg MAWRTH 2026.**

**Minutes of the Full Council Meeting held at the Gaerwen Community Centre, on THURSDAY, 19th MARCH 2026.**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Presennol oedd** | **PRESENT were:** |
| | Y Cynghorwyr:<br>Mr Ian Owen (Cadeirydd),<br>Ms Linda Jones, Mr Rhodri Williams,<br>Mr Derek Hughes, & Mr Gerallt Hughes.<br>HEFYD: Mr J Alun Foulkes (Clerc)<br>Cynghorydd Sirol: Mr Dafydd Roberts. | Councillors:<br>Mr Ian Owen (Chair), Ms Linda Jones,<br>Mr Rhodri Williams, Mr Derek Hughes,<br>& Mr Gerallt Hughes.<br>ALSO: Mr J Alun Foulkes (Clerk)<br>County Councillor Mr Dafydd Roberts. |
| | | |
| 2 | **Derbyn Ymddiheuriad** | **To Receive Apologies from:** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb Oddiwrth:<br>Y Cynghorwyr: Mr Einion Williams,<br>Ms Kirsty Williams, Mr Deiniol Jones,<br>Mr Cynrig Jones. | Apologies for absence received from:<br><br>Councillors: Mr Einion Williams,<br>Ms Kirsty Williams, Mr Deiniol Jones,<br>Mr Cynrig Jones. |
| | | |
| 3 | **Croeso** | **Welcome** |
| | Croesawyd y Cynghorwyr yn gynnes i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Ian Owen a dymunodd y Cyngor wellhad buan i'r Cynghorydd Mr Einion Williams yn dilyn ei lawdriniaeth heddiw. | Councillors were warmly welcomed to the meeting by the Chair, Cllr Ian Owen and Council wished Cllr Mr Einion Williams a speedy recovery following his operation today. |
| | | |
| 4 | **Datgan Diddordeb Personol a/neu Rhagfarnol** | **Declare Personal and/or Prejudicial Interest** |
| | Datganodd y Cynghorydd Mr Rhodri Williams datganiad personol nad oedd yn rhagfarnllyd wrth drafod y Cais Cynllunio a dderbyniwyd yn ymwneud â MsPARC. Arhosodd yn yr ystafell a chymerodd rhan yn y trafodaethau a'r penderfyniad. | Cllr Mr Rhodri Williams declared a personal interest that was not prejudicial when discussing the Planning Application received appertaining to MsPARC. He remained in the room and took part in the discussions and decision |
| | | |
| 5 | **Cywiro & Cymeradwyo Cofnodion** | **To Correct & Approve Minutes** |
| | **Cyfarfod Misol – 26ain Chwefror 2026:**<br>Cynig & Eilio (LJ/RW) cymeradwyo bod y cofnodion yn gywir yn dilyn cywiriad i gofnod 6.5.2 (dileu Llwybr Y Rhos). | **Monthly Meeting – 26th February 2026:**<br>Proposed & Seconded (LJ/RW) to approve that the minutes are correct following a minor correction to minute 6.5.2 (delete Llwybr Y Rhos). It was |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd yn unfrydol a llofnododd y Cadeirydd y ddogfen. | unanimously agreed and the Chairman signed the document. |
| | | |
| **6** | **Materion Caeau Chwarae** | **Play Area Matters** |
| | **Offer Roced** | **Rocket Equipment** |
| | Cadarnhad y bydd y gwaith i adfer yr offer yn dechrau cyn gynted â phosib. | Confirmation that work to reinstate this equipment will now begin as quickly as possible. |
| | | |
| **7** | **Rhaglen Balchder yn ei Le** | **Pride in Place Programme** |
| | Hysbysodd y Clerc ei fod yn dal i aros am gadarnhad gan y Cyngor Sir ynghylch faint o arian sydd wedi'i ddyrannu ynghyd â manylion llawn am amodau'r grant yn dilyn penderfyniad eu Pwyllgor Gweithredol i rhannu £750k o'r dyraniad rhwng Cynghorau Tref a Chymuned i helpu i ariannu prosiectau o fewn y Gymuned. | The Clerk informed Council that he was still waiting confirmation from the IOACC of how much money has been allocated along with full details about the conditions of the grant following their Executive Committee decision to share £750k of the allocation between Town & Community Councils to help fund projects within the Community. |
| | | |
| **8** | **Cynllun Teithio Llesol** | **Active Travel Scheme** |
| | Croesawyd Dylan Llewelyn Jones a Sian Peters o Adran Priffyrdd CSYM (Adran Trafnidiaeth Strategol a Chynaliadwy) i drafod yr Adolygiad Map Rhwydwaith Teithio Llesol arfaethedig ar gyfer Ynys Môn a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Cychwynnol 2026 ar gyfer Gaerwen. Cynhaliwyd cyflwyniad a thrafodaeth hir ac adeiladol a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar wella a chreu ardal fwy diogel ar hyd Lôn Groes a Stryd y Capel ar gyfer cerddwyr a beicwyr a hefyd i ailystyried ailosod y lloches bws a datblygu'r ardal gyferbyn â Stermat a gadawyd cynlluniau drafft i'r Cyngor a'r Cynghorwyr edrych arnynt yn fanylach. Yn y cyfamser, bydd y Clerc yn ymateb i'r ymgynghoriad presennol erbyn 26 Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau Swyddog am ddod draw i gyfarfod â'r Cynghorwyr ac am rhoi o'u hamser i wrando ar sylwadau'r Cynghorwyr ac am rannu'r cynlluniau a'r cynigion. | The Chair welcomed both Dylan Llewelyn Jones and Sian Peters from the IOACC Highways Department (Strategic & Sustainable Transport Section) to discuss the proposed Anglesey's Active Travel Network Map Review and Initial Public Consultation 2026 for Gaerwen. A lengthy and constructive presentation and discussion took place that mainly concentrated on improving and creating a safer area along Lon Groes and Chapel Street for pedestrians and cyclists and also to reconsider replacing the bus shelter and develop the area opposite Stermat and draft plans were left for the Council and Cllrs to look at in more detail. In the meantime, the Clerk will respond to the current consultation by the 26th March. The Chair thanked both Officers for coming along to meet the Councillors and for giving up their time to listen to Cllrs observations and for sharing the plans and proposals. |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Safle Parcio & Teithio Gaerwen** | **Gaerwen Park & Ride Site** |
| | Roedd y Clerc wedi derbyn e-bost gan Bennaeth Tai CSYM mewn ymateb i'r llythyr a anfonwyd i gwyno am y defnydd parhaus a dros dro o'r safle i ddarparu llety i Deithwyr a'r llanast a'r fandaliaeth a adawyd. Roedd yr ymateb wedi'i rannu gyda'r holl Gynghorwyr cyn y cyfarfod ac roedd pawb yn siomedig iawn gyda'r ymateb a'i gynnwys ac yn teimlo y dylid gwneud mwy o ymdrech i sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru i gwblhau'r safle dynodedig yn Star. Yn y cyfamser, roedd y Cynghorwyr yn gobeithio y byddai Cyngor Sir Ynys Môn yn hysbysu'r Cyngor Cymuned pan fyddai'r safle'n cael ei feddiannu a bod ymweliadau safle rheolaidd a monitro agosach yn cael mwy o flaenoriaeth. | The Clerk had received an email from the IOACC Head of Housing in response to the letter sent to complain about the continued and temporary use of the site to accommodate Travellers and the mess and vandalism that had been left. The response had been shared with all Cllrs prior to the meeting and everyone was deeply disappointed with the reply and its contents and felt that more effort should be made to secure Welsh Government funding to complete the designated site in Star. In the interim, Cllrs hoped that the IOACC will inform the Community Council when the site was being occupied and that regular site visits and closer monitoring is given more priority. |
| | | |
| **10** | **Adroddiad y Cynghorwyr Sirol** | **County Councillor's Report** |
| | Rhoddodd y Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts adroddiad diweddar byr ar faterion y Cyngor Sir a diolchwyd iddo gan y Cadeirydd. | County Cllr Mr Dafydd Roberts gave a brief updated report on County Council issues and was thanked by the Chair. |
| | | |
| **11** | **Adroddiad Cyllid** | **Financial Report** |
| **11.1** | **Rhestr Taliadau & Derbyniadau y Cyngor:** Cynnig & Eilio (LJ/RW) i gymeradwyo'r taliadau isod ac fe basiwyd yn unfrydol: | **List of Council Bills for Payments:** Proposed & Seconded (LJ/RW) to approve the payments below and this was passed unanimously: |
| | Cyflog Clerc – Ebrill 2026 **£483.90**<br><br>British Gas – Trydan Gardd Mileniwm 3ydd Chwefror > 2ail Mawrth 2026 **£28.71**<br><br>Costau Banc **£2.00** | Clerks Wages – April 2026 **£483.90**<br><br>British Gas – Millenium Garden Electric 3rd February > 2nd March 2026 **£28.71**<br><br>Bank Charges **£2.00** |
| **11.2** | **Cysoni Cyfrifon Banc: 28.2.2026**<br>Cyfrif Cyffredol - £27,265.46<br>Cyfrif Cadw - £3,255.88 | **Bank Account Reconciliation: 28.2.2026**<br>Current Account - £27,265.46<br>Reserve Account - £3,255.88 |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **12** | **Ceisiadau Cynllunio Newydd** | **New Planning Applications** |
| **12.1** | Cais llawn ar gyfer gosod paneli solar PV ar y ddaear, ynghyd ag offer cysylltiedig ar dir yn:<br><br>**Parc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen – FPL/2026/33 – DIM SYLWADAU.** | Full application for the installation of ground mounted PV solar panels, together with associated equipment on land at:<br>**Menai Science Park, Gaerwen – FPL/2026/33 – NO OBSERVATIONS.** |
| **13** | **Penderfyniadau Ceisiadau Cynllunio** | **Planning Application Decisions** |
| **13.1** | Cais Llawn – Addasu & Ehangu yn – Tros y Terfyn, Stryd y Capel, Gaerwen – **HHP/2026/4 – CANIATAD.** | Full Application – Alter & Extend at Tros y Terfyn, Chapel Street, Gaerwen – **HHP/2026/4 – APPROVED.** |
| | | |
| **14** | **Gohebiaeth** | **Correspondence** |
| | Dosbarthwyd a rhannwyd y gohebiaeth canlynol gyda Cynghorwyr drwy ebost:<br><br>• Ymgynghoriad Cyngor Sir Ynys Môn ar y Weledigaeth, yr Amcanion a'r Opsiynau a'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol Newydd Ynys Môn – dyddiad cau ar gyfer sylwadau – 25 Mawrth 2026.<br>• Datganiad i'r Wasg Cyngor Sir Ynys Môn ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud ar wella safonau tai a chynyddu dyraniadau leol.<br>• Datganiad i'r Wasg Cyngor Sir Ynys Môn ynghylch Cyllideb 2026/27 er mwyn cynnal cymeradwyaeth gwasanaethau hanfodol i'w thrigolion. | The following correspondence had been shared with Cllrs via email:<br><br>• IOACC Consultation on the Vision, Objectives & Options and Integrated Sustainability Appraisal as part of the new Anglesey Local Development Plan – closing date for observations – 25th March 2026.<br>• IOACC Press Release appertaining to progress being made on improving the housing standards and increasing local allocations.<br>• IOACC Press Release appertaining to the 2026/27 Budget in order to maintain the approval of essential services for its residents. |
| **15** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos IAU, 30ain EBRILL 2026.** | **Date of Next Meeting – Thursday, 30th APRIL 2026.** |
| | Heb unrhyw fusnes pellach i'w drafod, diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a'r Cynghorwyr am eu presenoldeb ac fe ddaeth y cyfarfod i ben am 8.25yh. | With no further business to be conducted, the Chairman thanked the Clerk and the Councillors for their attendance and declared the meeting closed at 8.25pm. |

**Arwyddo/Sign…..…………………………….Cadeirydd/Chair………………Dyddiad/Date.**